

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Materion Ewropeaidd

Cynhyrchwyd gan swyddfa'r UE
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 23_Hydref 2011



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf eich croesawu i'r 23ain rhifyn o Faterion Ewrop, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Dyma'r rhifyn cyntaf o dan y Pedwerydd Cynulliad a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i egluro rhai o'r newidiadau yn ein dull o ymdrin â materion Ewropeaidd o dan y strwythurau pwyllgor newydd a sefydlwyd ym mis Mehefin.

Rydym yn prif ffrydio materion Ewropeaidd ar draws gwaith yr holl bwyllgorau yn hytrach na chael Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol penodedig. Gobeithio y bydd hyn yn cynnwys mwy o Aelodau Cynulliad wrth ymdrin â materion o bwys mawr i Gymru.

Bydd y pum pwyllgor polisi/deddfwriaeth thematig yn arwain ar y materion Ewropeaidd sy'n dod o fewn eu cylch gwaith, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o Swyddfa UE y Cynulliad am ddatblygiadau allweddol sy'n berthnasol i'w gwaith. Mae ffrwyth y dull hwn i'w weld eisoes yn yr ymchwiliadau sydd ar waith neu yn y paratodau ar gyfer nifer o faterion strategol allweddol i Gymru.

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar y diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi lansio ymchwiliad i ddyfodol Cronfeydd Strwythurol yr UE a bydd hefyd yn edrych ar raglen ariannu Ymchwil yr UE yn y dyfodol (Horizon 2020) a diwygiadau i ddeddfwriaeth Caffael Cyhoeddus yr UE yn ystod y misoedd nesaf.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynllunio ymchwiliad i weithredu Rhaglenni presennol Cronfeydd Strwythurol yr UE 2007–2013 o safbwynt cyllid yng Nghymru Bydd hefyd yn cadw golwg ar Gyllideb yr UE yn y dyfodol wrth edrych ar y cwestiwn ehangach o ariannu datganoli.



Mae gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyfrifoldeb arweiniol am fonitro sybsidiaredd, a bydd yn cysylltu â deddfwrfeydd eraill y DU ac â'n seneddau ar draws Ewrop er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion o bryder i Gymru'n cael eu nodi a'u hysbysu i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Drwy'r gwaith hwn i gyd byddwn yn cysylltu'n agos ag Aelodau Seneddol Ewropeaidd Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd, rhwydweithiau'r UE fel CALRE, a rhanddeiliaid o Gymru. Byddwn yn trefnu seminarau a chynadleddau ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau eraill yng Nghymru ac ar draws Ewrop.

Rwy'n awyddus i weld Aelodau'r Cynulliad yn chwarae rhan flaenllaw mewn gweithgareddau Ewropeaidd a rhyngwladol, ac fel cyn aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau, rwy'n falch o weld bod Christine Chapman AC a Rhodri Glyn Thomas AC yn rhoi llais cryf a dylanwadol i Gymru fel ein dau gynrychiolydd o'r Cynulliad ar y corff hwn. Byddaf i a fy nirprwy, David Melding AC, yn gwneud yr un modd ar CALRE (y rhwydwaith Ewropeaidd o seneddau rhanbarthol) ac rwyf yn ymwybodol bod nifer o aelodau eraill wedi cynllunio ymweliadau â Brwsel dros y misoedd nesaf yn ystod cyfnod hanfodol o ran trafodaethau ar nifer o faterion allweddol o bwys i Gymru.

Gan edrych yn nes adref, yr ydym wedi cael rhaglen brysur o ddigwyddiadau ac ymweliadau gan bwysigion yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ers yr etholiadau. Cadeiriodd Christine Chapman AC y Cyngor UE Ffug blynyddol, a oedd yn cynnwys ysgolion ar draws Cymru a myfyrwyr o Silesia yng Ngwlad Pwyl. Croesawyd Llysgenhadon Tsiecoslofacia a Thwrci i'r DU, dirprwyaeth o Senedd Gorllewin Awstralia, Uwch Gomisiynydd Canada a nifer o gynrychiolwyr pwysig eraill.

Yn olaf, gydag elfen o dristwch y cwrddais â'i Ardderchowgrwydd y Tywysog Seesio Bereng Seesio Uwch Gomisiynydd Lesotho cyn iddo roi'r gorau i'w swydd ar ôl chwe blynedd. Hoffwn gofnodi fy nioch iddo am ei waith yn hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho.

Rosemary Butler AC
Llywydd

Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

- **Ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin:** lansiwyd yr alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar ôl cyhoeddi cynigion deddfwriaethol drafft y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Hydref. Mae sesiynau tystiolaeth wedi'u cynllunio ar gyfer mis Tachwedd gan gynnwys Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth ac Aelodau Seneddol Ewropeaidd Cymru (9 Tachwedd), rhanddeiliaid amgylcheddol (18 Tachwedd), a sesiwn dystiolaeth gydag undebau'r ffermwyr a ffermwyr yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru yn Llanelwedd (28 Tachwedd).
- **Ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i Ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin:** lansiwyd yr alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar ddiwedd mis Medi. Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth ym mis Hydref a mis Tachwedd, gan gynnwys Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Materion Morol a Physgodfeydd (9 Hydref yn wreiddiol – i'w aildrefnu), sefydliadau amgylcheddol Cymru a Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru (3 Tachwedd), a chynrychiolwyr o'r diwydiant pysgota yng Nghymru (17 Tachwedd).

Y Pwyllgor Menter a Busnes

- **Cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014–2020:** lansiwyd yr ymchwiliad ar ôl cyhoeddi pecyn deddfwriaethol drafft y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Hydref. Mae sesiynau tystiolaeth wedi'u cynllunio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd (16 Tachwedd), Aelodau Seneddol Ewropeaidd Cymru (dyddiadau'n cael eu cadarnhau) a rhanddeiliaid eraill o sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Cymru.
- **Ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael i ddylanwadu ar Foderneiddio'r polisi Caffael Ewropeaidd:** cytuno ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad ar ddiwedd mis Medi a lansio'r alwad am gyfraniadau ysgrifenedig ym mis Hydref. Bwriedir i sesiynau tystiolaeth ffurfiol gychwyn yn ystod chwarter cyntaf 2012, ar ôl cyhoeddi cynigion deddfwriaethol drafft y Comisiwn Ewropeaidd (disgwylir ar 13 Rhagfyr).
- **Adfywio canol trefi:** cynhelir y sesiwn dystiolaeth derfynol gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru ar 24 Tachwedd. Mae'r ymchwiliad wedi crybwyll defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer prosiectau adfywio canol trefi.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

- **Monitro sybsidiaredd:** cyfrifoldeb arweiniol am ystyried materion yn ymwneud â sybsidiaredd mewn perthynas â'r holl gynigion deddfwriaethol newydd sy'n dod o'r UE ac sy'n berthnasol i gymwyseddau datganoledig y Cynulliad (yn unol â Phrotocol Sybsidiaredd Cytundeb Lisbon).
- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** rhagwelir sesiwn yn ystod yr hydref i edrych ar ffyrdd o adrodd ar weithgareddau cynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

Y Pwyllgor Cyllid

- **Effeithiolrwydd Ariannu Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru 2007–2013:** cytunwyd ar y cylch gorchwyl ym mis Hydref a chyhoeddwyd yr alwad am gyflwyniadau ysgrifenedig. Rhagwelir y cynhelir y prif sesiynau tystiolaeth yn ystod chwarter cyntaf 2012.

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

- Rhagwelir y ceir y wybodaeth ddiweddaraf am yr UE yn ystod tymor yr Hydref ar ôl cyhoeddi Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2012.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Rhagwelir y ceir y wybodaeth ddiweddaraf am yr UE yn ystod tymor yr Hydref ar ôl cyhoeddi Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2012.

Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

- Rhwng 12 a 14 Mehefin bu **David Melding AC, y Dirprwy Lywydd** yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA) a gynhaliwyd yng Nghorc.
- Ar 24 Mehefin bu **Rosemary Butler AC, y Llywydd** mewn cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog CALRE (rhwydwaith deddfwrfeydd rhanbarthol Ewrop) a gynhaliwyd yn Santiago de Compostela yn Galicia, Sbaen.
- Rhwng 21 a 23 Gorffennaf bu'r **Dirprwy Lywydd** yng ngweithdy "Dynamics of European Regionalism" CALRE a groesawyd gan Arlywydd Pagano, Llywydd CALRE yn ninas Pescara, yr Eidal, ble mae'n byw.
- Ar 9 Medi bu **Christine Chapman AC** mewn cyfarfod o Fiwro Gwleidyddol Pwyllgor y Rhanbarthau yn Poznan, Gwlad Pwyl, yn rhinwedd ei swydd fel cydgysylltydd gwleidyddol Llwyfan Monitro Ewrop 2020 Pwyllgor y Rhanbarthau. Mae Christine Chapman yn un o ddau gynrychiolydd o'r Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau.
- Ar 16 Medi bu **Rosemary Butler, y Llywydd** mewn cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog CALRE a gynhaliwyd yn Santa Cruz de Tenerife.
- Ar 30 Medi bu **Rhodri Glyn Thomas AC** yng nghyfarfod Comisiwn Adnoddau Naturiol Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- Ar 5 Hydref cymerodd **Rhodri Glyn Thomas AC** ran mewn seminar bwysig ym Mrwsel ynghylch y fframwaith ariannol aml-flynyddol arfaethedig ar gyfer yr UE (2014–2020) a drefnwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau a'r Ganolfan Polisiâu Ewropeaidd.
- Ar 10 a 11 Hydref rhoddodd **Rhodri Glyn Thomas AC** anerchiad i Janusz Lewandowski, Comisiynydd Cyllideb yr UE yn ystod Cyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau.
- Ar 16-22 Hydref, mynychodd **William Powell AC** Nawfed Seminar Seneddol Canada (CSG) yn Ottawa.
- Rhwng 20 a 21 Hydref cymerodd **Rhodri Glyn Thomas AC** ran mewn cynhadledd ar y cyd i gynrychiolwyr tri phrif sefydliad yr UE gyda chynrychiolwyr o seneddau cenedlaethol a Phwyllgor y Rhanbarthau, a gynhaliwyd yn Senedd Ewrop.
- Rhwng 23 a 25 Hydref cymerodd y **Dirprwy Lywydd** a thri o gynrychiolwyr newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar BIPA (**William Powell AC, Bethan Jenkins AC a Darren Millar AC**, a ddewiswyd ym mis Mehefin), ran yng Nghyfarfod Llawn BIPA yn Brighton. Roedd **Joyce Watson AC** yn bresennol yn lle pedwerydd cynrychiolydd newydd BIPA, **Ken Skates AC**.
- Yn ystod torriad mis Hydref, wnaeth **Darren Millar AM** ymweld â rhanbarth "Western Cape" De Affrica fel rhan o Gynllun Noddi Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.
- Rhwng 9 a 10 Tachwedd bydd **Simon Thomas AC** ym Mrwsel i fynychu gynhadledd yn y Senedd Ewropeaidd a sawl cyfarfodydd gyda swyddogion yr UE.
- Ar 10 Tachwedd bydd **Rhodri Glyn Thomas AC** yn cymryd rhan yng nghyfarfod Comisiwn ad hoc dros dro Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel ar Fframwaith Ariannol Aml-flynyddol arfaethedig yr UE ar gyfer 2014–2020.
- Rhwng 24 a 26 Tachwedd bydd y **Dirprwy Lywydd** yn bresennol yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad CALRE yn L'Aquila, yr Eidal.
- Ar 9 Rhagfyr bydd y **Dirprwy Lywydd** yn bresennol mewn cynhadledd ar Ffederaliaeth yn Ewrop (a fydd yn canolbwyntio ar Wlad Belg, yr Almaen a'r DU) yn Senedd Fflandrys ym Mrwsel.

Ymweliadau rhyngwladol â'r Senedd

- Ar 14 Medi croesawodd y Cynulliad y Cyngor UE Ffug blynyddol, a oedd yn cynnwys plant rhwng 16 a 18 oed o ysgolion ar draws Cymru a dau fyfyrwr o Silesia yng Ngwlad Pwyl gyda Christine Chapman AC, aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau yn cadeirio'r trafodion. Roedd y Cyngor ffug yn canolbwyntio eleni ar ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ac argyfwng Ardal yr Ewro.
- Ar 22 Medi cyfarfu'r Llywydd ag Andy Klom, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.
- Ar 3 Hydref ymwelodd Aelodau o Senedd Gorllewin Awstralia â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, fel rhan o ymweliad â'r DU ac Ewrop. Buont yn cyfarfod â'r Llywydd ac aelodau o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.
- Ar 10 Hydref cyfarfu'r Llywydd â'i Ardderchowgrwydd y Tywysog Seesio Bereng Seesio Uwch Gomisiynydd Lesotho, a fydd yn rhoi'r gorau i'w swydd ddiplomyddol yn fuan ar ôl 6 blynedd. Roedd yn dymuno diolch i'r rhai a fu ynghlwm â'r cysylltiad rhwng Cymru a Lesotho. Cyfarfu'r Llywydd hefyd â 27 o athrawon o Lesotho yn ystod eu hymweliad â Chymru a drefnwyd drwy ysgolion cyswllt yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin.
- Ar 11 Hydref cyfarfu'r Llywydd â Mr Ahmet Ünal Çeviköz, Llysgennad Twrci yn y Deyrnas Unedig fel rhan o raglen gan Lywodraeth Cymru.
- Ar 19 Hydref cyfarfu David Melding AC, y Dirprwy Lywydd â Michael Žantovský, Llysgennad Tsiecoslofacia yn y Deyrnas Unedig fel rhan o raglen gan Lywodraeth Cymru.
- Rhwng 21 a 23 Hydref croesawodd y Cynulliad gynhadledd Tertulias y DU ar y cyd â Sbaen.
- Ar 3 Tachwedd ymwelodd Mr Gordon Campbell, Uwch Gomisiynydd Canada â'r Cynulliad i lansio'n swyddogol yr arddangosfa "Treasures of a Nation".

Lincs

- [Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)
- [Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
- [Tudalennau'r Pwyllgorau](#)
- [Gwasanaeth Ymchwil](#)

Am ragor o wybodaeth—

Cysylltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

Neu

Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
archebu@cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.